

# Sut gallwn gefnogi plant mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar i....?

- ddeall rwtin a chyfnodau trosiannol (bach a mawr)
- wneud dewis
- ddatblygu sgiliau emosiynol, lles a chymdeithasol

# Mae’n bwysig ystyried y model Map Darpariaeth



# Mae'n bwysig ystyried lefel dealltwriaeth ieithyddol pob plentyn er mwyn defnyddio'r dull fwyaf effeithiol i gefnogi'r plentyn




- Nid yw pob plentyn yn deall iaith lafar ar ben ei hun neu drwy ddefnyddio llun neu symbol i gefnogi.
- Mae'r Gris Symbolau – Elklan yn egluro'r camau graddoledig sydd angen eu cymryd i helpu datblygu dealltwriaeth plentyn.
- Unwaith rydym yn gwybod lefel dealltwriaeth plentyn, dyna lle'r rydym yn cychwyn i'w gefnogi i ddeall.
- Mae'r gris cyntaf yn cychwyn gan ddangos gwrthrych go iawn. Deall gwrthrychau go iawn yw cam cyntaf datblygiad symbolaidd. Felly, ystyrir mai defnyddio gwrthrychau yw'r dull mwyaf cadarn o gynrychioli gair.

# Camau datblygiadol i gefnogi dealltwriaeth plentyn


1. Dangos gwrthrych real i’r plentyn e.e. oren go iawn.



2. Pan mae’r plentyn yn deall gwrthrych real, mae angen ystyried os oes angen symud ymlaen i ddangos tegan sydd yn cynrychioli’r gwrthrych e.e oren plastig.



3. Pan mae plentyn yn deall gwrthrych, mae angen symud ymlaen I ddefnyddio llun camera o’r gwrthrych real.



4. Pan mae’r plentyn yn deall llun camera, mae angen symud ymlaen i ddefnyddio symbolau (gweler gefan ADYaCh, Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar)






# Sut gallwn gefnogi plentyn ddeall rwtin a theimlo’n saff yn ystod cyfnodau trosiannol (bach a mawr)?




- Mae pob plentyn angen deall trefn y lleoliad / dosbarth newydd.
- Mae angen trefn sydd yn ailadroddus a chyfarwydd er mwyn ei helpu i ddeall beth sy’n mynd ymlaen
- Cofiwch ystyried lefel dealltwriaeth y plentyn (Y gris symbolau)

# Ar lefel gwrthrychau go iawn

- Mae Gwrthrychau Cyfeirio’n wrthrychau sy’n cael eu defnyddio i gynrychioli person, gweithgaredd neu ddigwyddiad.
- Dros amser, bydd y plentyn yn dysgu bod y gwrthrych yn cynrychioli’r person hwnnw, y gweithgaredd hwnnw neu’r digwyddiad.

**Sut i greu gwrthrychau cyfeirio**

1. Dewiswch y person, y weithgaredd neu’r digwyddiad yr hoffech iddynt ei ddeall.
2. Dylai fod yn hawdd ei ddeall. Caiff eitemau eu dewis oherwydd eu nodweddion amlsynnwyr. Rhaid i’r gwrthrych cyfeirio fod yn berthnasol i’r plentyn, felly gall dau blentyn fod â gwrthrych cyfeirio gwahanol ar gyfer yr un tegan neu weithgaredd. Mae trafod y gwrthrych yn helpu’r plentyn i greu darlun meddyliol ohono. Gallai fod yn rhywbeth fel: Eitem yr ydych yn ei ddefnyddio yn ystod y gweithgaredd (e.e. fforc = swper, brwsh paent = paentio) Rhan o’r gwrthrych (e.e. rhaff = siglen, crochenwaith = garddio) Rhywbeth sy’n debyg i’r gwrthrych go iawn (e.e. ffabrig o’r un deunydd â’r gwrthrych) Rhywbeth nad yw’n uniongyrchol berthnasol, ond all symboleiddio’r gweithgaredd (e.e. gallai brigyn gynrychioli mynd am dro).
3. Mae’n well dechrau â thua 3 Gwrthrych Cyfeirio ar gyfer gweithgareddau/digwyddiadau sy’n digwydd yn aml iawn. Gallwch ychwanegu mwy o Wrthrychau Cyfeirio yn nes ymlaen.



# Ar lefel gwrthrychau go iawn

**<u>Sut i ddefnyddio Gwrthrychau Cyfeirio</u>**

1. Cyn i'r plentyn ddechrau ar y gweithgaredd rhowch y Gwrthrych Cyfeirio iddo/iddi. Defnyddiwch arwydd a/neu iaith e.e. "Rwan ryda ni'n mynd i'r parc"
2. Ar ôl rhoi'r Gwrthrych Cyfeirio, mae'n bwysig dechrau ar y gweithgaredd yn syth i helpu'r plentyn ddeall y cysylltiad rhwng y gweithgaredd a'r gwrthrych
3. Mae'n bwysig iawn bod gwrthrychau'n cael eu defnyddio'n gyson bob tro y byddwch yn gwneud y gweithgaredd
4. Pan fydd gweithgaredd yn dechrau, ewch â'r Gwrthrych Cyfeirio oddi ar y plentyn a'i roi i gadw. Mae'n syniad da i fod â lle cyson (e.e. bag/blwch) i gadw pob gwrthrych yno a'u rhoi nhw i ffwrdd pan fydd y gweithgaredd wedi dechrau
5. Unwaith y bydd y plentyn wedi deall y cysylltiad rhwng y gwrthrychau a'r gweithgareddau, gallwch ddefnyddio'r gwrthrychau hyn i gynnig dewis yn ymwneud â'r gweithgareddau hyn.







# Ar lefel gwrthrychau go iawn













# Ar lefel gwrthrychau go iawn









# Gwrthrychau sy’n cynrychioli

1. Pan mae plentyn yn deall gwrthrych go iawn yna gellid symud ymlaen i ddefnyddio gwrthrych sydd yn cynrychioli gwrthrych go iawn e.e.

- Unrhyw gôt i ddangos ei bod yn amser chwarae
- Unrhyw gôt a bag i ddangos ei bod yn amser mynd adref
- Cwpan o’r tŷ bach twt i ddangos ei bod yn amser diod
- Unrhyw degan i ddangos ei bod yn amser chwarae...







# Lluniau go iawn

1. Pan mae plentyn yn deall gwrthrych sydd yn cynrychioli gwrthrych go iawn yna gellid symud ymlaen i ddefnyddio lluniau camera o wrthrychau go iawn.

















# Symbolau

1. Pan mae plentyn yn deall lluniau camera o wrthrychau go iawn  yna gellid symud ymlaen i ddefnyddio symbolau.
2. Mae dull o gyfnewid cerdyn i gyfathrebu yn gallu bod yn strategaeth effeithiol












# Cyflwyno dau gam ar y tro


- Mae rwan ac wedyn yn ddull i egluro / cyflwyno dau gam ar y tro
- Mae'r dull yma yn dangos i blant beth sy'n digwydd rŵan a wedyn trwy'r sesiwn.
- Tros amser mae'r plant yn dod i ddeall y drefn a thros amser estynedig yn debygol o allu dilyn yr amserlen llawn.
- Mae'r plant sydd ag anawsterau deall iaith yn debygol o fod angen dull 'rŵan a wedyn' yn ddyddiol am gyfnod estynedig i sicrhau eu bod yn deall trefn cyfarwydd.
- Rhaid egluro "Rŵan ______ ac wedyn ________'. (Os tybir bod dau lun yn ormod i blentyn, yna mae'n iawn defnyddio un llun ar y tro hefyd).
- Yr un lluniau a ddefnyddir ar gyfer amserlen weledol llawn a strategaeth rŵan a wedyn

**Pam rydym yn defnyddio dull gweledol i gefnogi plentyn symud o un gweithgaredd i'r nesaf?**

- Rhai yn cael trafferth symud eu hymennydd rhwng tasgau gwahanol
- Helpu i baratoi'r ymennydd o'r newid sydd o'u blaenau
- Cefnogi'r broses pontio o un gweithgaredd i'r nesaf
- Dull effeithiol i leihau amser maent yn treulio mewn un gweithgaredd
- Dull effeithiol gyda plentyn sy'n mynnu 'beth sy'n bwysig i..' yn barhaus
- I ddangos 'wedyn' sef gwobr i gymell y plentyn i ymgymryd mewn gweithgaredd



# Rwan ac wedyn





4. Symbolau

3. Llun camera








2. Gwrthrychau sy'n cynrychioli




1. Gwrthrychau go iawn

# Rwan ac wedyn ar lefel symbolau



**Sut gallwn baratoi'r adnoddau?**

- Argraffu Cardiau bach a'u lameneiddio
- Templed rŵan ac wedyn A4
- Ystyried rwtin cyfarwyd dy lleoliad ac argaffu'r symbolau hynny

**Sut gallwn ddefnyddio'r cardiau symbol?**

- Dangos y ddau lun a phwyntio at y lluniau gan ddweud

**'Rŵan 'gweithgaredd 1' Wedyn 'Gweithgaredd 2'** Os ydy plentyn yn mynd i ffwrdd atgyfnerthu gan d dangos y cardiau eto.

- Ar ôl cwblhau gweithgaredd 1, pwyntio at y llun a dweud **'gweithgaredd 1 ' gorffen, rŵan 'gweithgaredd 2'** Mae'n bwysig cychwyn gweithgaredd 2 yn syth er mwyn i'r plentyn ddod i ddeall y broses.
- Mae Cerdyn rŵan ac wedyn yn gweithio'n effeithiol os ydy'r gweithgaredd 'wedyn' yn rhywbeth sy'n bwysig i'r plentyn.
- Defnydd cyson o'r adnodd



# Amserlen weledol llawn ar lefel symbolau




**Dull gweledol o gyflwyno rwtin y sesiwn. Dylai bob lleoliad fod ag amserlen weledol.**

**Pam?**

- Pawb yn ffynnu gyda rwtin
- Strwythur yn caniatáu iddynt drefnu eu meddwl a rhagweld digwyddiadau
- Gosod disgwyliadau mewn ffordd syml
- Lleihau lefel pryder
- Mae pryder yn gallu gwneud hi'n anodd prosesu gwybodaeth clywedol

**Sut?**

- Cardiau o leiaf maint A5 wedi'u lamineiddio
- Gosod mewn man hwylus i'w defnyddio a'u gweld
- Yn ddelfrydol eu gosod ar draws (efelychu'r broses darllen)
- Ymarferwyr i'w defnyddio gyda phawb i symud o un gweithgaredd i'r llall drwy dynnu sylw'r plant at y llun a rhoi rhybudd e.e. '**Mewn 2 funud amser chwarae yn gorffen, WEDYN amser tacluso**' (cadw iaith yn syml iawn) Gellir defnyddio amserydd tywod. Bydd angen atgoffa rhai gan ddefnyddio llun ar y keyring. Ar ôl dau funud '**Rŵan mae hi'n amser tacluso** (pwyntio at y llun) **ta ta amser chwarae' a throi'r cerdyn rownd.**
- Rhan annatod o'ch ymarfer bob dydd




# Amserlen weledol ar lefel gwrthrychau go iawn





# Pa mor aml sydd angen defnyddio’r strategaethau hyn?

- Er mwyn profi llwyddiant, mae angen defnyddio’r strategaethau yn rheoliadd ac yn gyson
- Credir eu bod angen bod yn rhan naturiol o rediad y lleoliad fel bod y plant yn dod i ddeall, derbyn ac ymdopi gyda rhediad y sesiwn.
- Credir nad yw hyn yn waith ychwanegol. Mae’n bosib ymgorffori’r strategaethgau i strwythur y lleoliad fel ffordd o gefnogi'r hyn sy’n cael ei ddweud.
- Tros amser mae’r plant ifanc yn mynd i fod yn symud fyny’r gris symbolau a ddeall beth sy’n mynd ymlaen ac yn gallu symud eu hymennydd rhwng tasgau gwahanol



# Sut gallwn gefnogi plentyn wneud dewis?




- Cofiwch ystyried lefel dealltwriaeth y plentyn (Y gris symbolau)
- Mae’n allweddol bwysig bod oedolyn yn buddsoddi amser i ddilyn strategaethau Ga I ymuno â chdi? yn y blynyddoedd cynnar er mwyn adnabod beth sy’n bwysig i’r plentyn

# Ar lefel gwrthrychau go iawn

- Nid yw pob plentyn yn barod i ddewis un o weithgareddau / profiadau a gynigir yn yr ardaloedd.
- Mae rhaid felly **darparu mewn modd ychwanegol** a darparu gweithgareddau gwahaniaethol sydd wedi ei deilwra yn unigol ar ei gyfer.
- Rhaid cychwyn hefo rhywbeth mae'r plentyn yn wirioneddol ei hoffi.

**Mae angen felly:**

- Darganfod beth mae'r plentyn yn ei hoffi (**cofnodi ym mhroffil un dudalen y plentyn**)
- Dangos 2 wrthrych go iawn gan gynnwys un mae'n ei hoffi ac un nad yw'n hoffi.
- Ymateb i ddull cyfathrebu'r plentyn yn syth
- Oedolyn i enwi'r gwrthrychau a chanmol ymdrech y plentyn i gyfathrebu
- Creu cyfleoedd i blentyn wneud dewis e.e cyfnod byrbryd, canu





# Teganau a gemau sy’n creu cyfleodd er mwyn cyfathrebu

**Mae angen:**

- Dewis y math o deganau a gynhigir yn ofalus:

- teganau sydd angen dau berson
- teganau gall oedolyn reoli

- Cadw teganau mewn bocs clir (plentyn yn gweld beth sydd tu mewn ac yn creu cyfleoedd i gyfathrebu i agor y caead)
- Oedolyn i reoli drwy roi ‘chydig ar y tro er mwyn creu cyfleoedd i gyfathrebu am fwy
- Modelu geirfa swyddogaethol (functional) e.e. ‘mwy, eisiau’










# Ar lefel Lluniau Camera

**Mae angen felly**

- Darganfod beth mae'r plentyn yn ei hoffi (nodi yn y proffil)
- Tynnu llun o'r union degan/gwrthrych a lamineiddio'r llun
- Dangos y llun ar ben ei hun i'r plentyn a'r un pryd ei gyfatebu i'r union degan
- Pan mae'r plentyn yn barod gellid dangos sawl llun ar y tro gweler y 'board ' o luniau o hoff bethau (cychwyn gyda 2 lun gan gynnwys rhywbeth sy'n bwysig a ddim yn bwysig)
- Gall oedolyn helpu'r plentyn i droi at y 'board' a dewis beth mae eisiau chwarae.
- Rhaid ymateb i ddull cyfathrebu'r plentyn..











# Ar lefel symbolau

**Mae angen felly**


- defnyddio llun lliwgar neu symbol






# Sut gallwn gefnogi sgiliau cymdeithasol?




- Cofiwch ystyried lefel dealltwriaeth y plentyn (Y gris symbolau)


# Ar lefel gwrthrychau go iawn

**Strategaeth goleadau traffig**

- Mae’r cardiau goleuadau traffig yn strategaeth weledol a ddefnyddir i gyfathrebu â phlant pan fydd gweithgaredd ar fin dechrau, pan fydd bron ar ben a phan fydd y gweithgaredd wedi dod i ben.
- Gall y strategaeth helpu plant drwy lwyddo i reoli’r pontio rhwng gweithgareddau gwahanol drwy ddweud wrthyn nhw bod rhywbeth ar fin dechrau, ei fod bron ar ben neu wedi dod i ben.

**Sut i greu cardiau goleuadau traffig?**

- Dylai pob symbol goleuadau traffig fod o faint CD ac ar gerdyn coch, melyn a gwyrdd.
- Dylai’r symbol coch gynrychioli ‘dechrau’,
- Dylai’r symbol melyn gynrychioli ‘bron â gorffen’
- Dylai’r symbol gwyrdd gynrychioli ‘wedi gorffen’.





# Ar lefel gwrthrychau go iawn

**Sut i ddefnyddio symbolau'r golau traffig?**

- Dylid defnyddio'r symbol gwyrdd i nodi bod gweithgaredd ar fin dechrau. Ceisiwch gael cyswllt llygaid gyda'r plentyn os yw'n bosibl ac os oes angen, gofynnwch i'r plentyn i gyffwrdd y symbol i ategu. Daliwch y cerdyn i fyny a dweud, "mae……………………yn cychwyn."
- Y symbol melyn yw'r un mwyaf pwysig gan ei fod yn rhybuddio pan fydd gweithgaredd bron â gorffen, neu pan fydd y mynediad ar fin dod i ben. Yn unol â'r uchod, sicrhewch bod cyswllt llygaid â'r symbol, ac os oes angen gofynnwch i'r plentyn i gyffwrdd â'r symbol melyn i ategu hynny. Daliwch y cerdyn i fyny a dweud, "mae……………………bron â gorffen."
- Mae'r symbol coch yn nodi bod gweithgaredd wedi gorffen. Daliwch y cerdyn i fyny a dweud, "mae……………………wedi gorffen.."
- Unwaith bydd cerdyn coch wedi cael ei arddangos, bydd rhaid dilyn y weithred drwadd.

**Cyngor Da**

- Efallai bydd angen cychwyn gyda gwyrdd a choch ac yna cyflwyno melyn
- Dylai pob ymarferwr ddefnyddio'r system
- Cofiwch ddefnyddio ieithwedd syml a defnyddio'r un geiriau wrth ddefnyddio goleuadau traffig, "……yn cychwyn'; '……bron â gorffen'; '……wedi gorffen'
- Gallwch defnyddio'r symbol melyn hefyd i ddefnyddio 'amser bron ar ben' ac 'arhoswch' ynghyd â 'bron â gorffen'
- Ceisiwch ymgorffori'r goleuadau traffig gydol y dydd, e.e. amser bwyd, sesiwn carped, gweithgaredd chwarae, chwarae awyr agored, newid napi ac ati
- Ar gyfer rhywbeth nad yw ar gael, defnyddiwch y symbol coch a dweud e.e. "tu allan wedi gorffen"



# Ar lefel lluniau a symbolau

- Gellir defnyddio cyfres o 'reolau' neu'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan ddefnyddio lluniau ar keyring
- Adnodd i bob oedolyn ei ddefnyddio mewn unrhyw leoliad blynyddoedd cynnar.

**Beth yw eu pwrpas?**


- Mae'r lluniau yn ddefnyddiol iawn gyda pob plentyn ifanc er mwyn eu cadw'n ddiogel, eu lles, eu helpu i ddysgu sgiliau allweddol
- Dechrau dysgu deall bod disgwyliadau arnom mewn gwahanol sefyllfaoedd.


**Pam eu gwisgo o amgylch y gwddf?**

- Fe'u defnyddir o amgylch y gwddf fel eu bod ar gael yn rhwydd i'w defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd o fewn yr Ysgol/lleoliad a thu allan e.e yn y dosbarth, neuadd, allan ar y buarth, ar ymweliad, mewn gwasanaeth ayyb.

**Oes rhaid defnyddio pob llun?**


- Nid oes rhaid defnyddio pob llun sydd wedi ei ddarparu.
- Dylai pob lleoliad ddewis y rhai sydd yn addas iddyn nhw.












# Ar lefel lluniau a symbolau

## Beth yw pwrpas y lluniau llai?

- Mae'n bosib ychwanegu lluniau bach ar gefn y lluniau 'mawr' er mwyn hwyluso'r oedolyn i chwilio am lun penodol yn sydyn.






# Ar lefel lluniau a symbolau

**Pa luniau sydd wedi profi yn fuddiol?**

- Mae'r holl luniau yn bwysig i helpu plant ifanc i ddeall a derbyn disgwyliadau a rheolau dosbarth.
- Mae llun 'adref' wedi profi yn un pwysig iawn i blant ifanc sydd efallai yn profi hiraeth ac yn emosiynol iawn wrth adael eu rhieni/gofalwyr. Mae cael gweld y llun yma fel petai yn rhoi sicrwydd iddynt eu bod yn mynd adref.
- Mae'r llun gafael llaw hefyd yn bwysig ar gyfer atgoffa plant ifanc o'r angen i wneud hyn wrth gerdded hefo Rhiant i/o'r ysgol. (Mae posib gwneud copi i'r rhieni hynny sy'n dymuno.


**Pa mor aml sydd angen defnyddio'r lluniau ar y keyring?**

- Er mwyn llwyddo i ddysgu'r disgwyliadau hyn, mae angen defnyddio'r lluniau ar y keyring yn ddyddiol i gychwyn fel bod pob plentyn yn dod i ddeall beth sydd angen ei wneud.
- Mae'n ffordd dda o gychwyn sesiwn amser cylch/ar y mat er mwyn atgoffa'r plant o beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt yn ystod y sesiwn
- Tros gyfnod o amser, mae'n bosib lleihau eu defnyddio gyda rhai plant a dim ond atgoffa ar lafar yn unig.
- Bydd rhai plant bach yn parhau i fod angen y lluniau i'w hatgoffa am gyfnod estynedig



# Makaton

- Gellir defnyddio arwyddion Makaton ar gyfer plant sydd ar gam cynnar o ddatblygiad iaith.
- Gall yr oedolyn ddefnyddio arwydd Makaton gweledol ar y cyd â'r ymateb llafar.
- Mae hefyd yn adnodd defnyddiol a all fod o fudd i blant â Saesneg fel Iaith Ychwanegol a phlant sy'n swil neu gyfathrebwyr neu amharod
- Mae cymorth a strategaethau gweledol yn fath o addasiadau sy'n dibynnu ar negeseuon gweledol i ganiatáu i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau ac arferion.
- Mae cymorth gweledol yn negeseuon graffig sy'n gallu gwella lefel canolbwyntio a sicrhau bod y plentyn yn gallu ffocysu ar rywbeth gweledol wrth wrando ar gyfarwyddiadau.
- Mae cymorth gweledol hefyd yn datblygu dealltwriaeth ac yn galluogi plant i brosesu'r hyn y gofynnir iddynt ei wneud.
- Gall cymorth gweledol fod ar ffurf gwrthrychau, ffotograffau, lluniau, symbolau neu eiriau ysgrifenedig.
- Ni ddylai cymorth gweledol ddisodli iaith ond yn hytrach dylid ei ddefnyddio ochr yn ochr â hi i helpu i gyfathrebu



# Cefnogaeth pellach

Cofiwch ymweld â gwefan ADYaCh/ Visit our ALN website: https://adyach.cymru/Splash.aspx

Croeso i chi gysylltu gydag aelod o dîm Blynyddoedd Cynnar a / neu ABC i gael sgwrs bellach.